# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 4

ASESU A CHYNNYDD

### 56 Dyletswydd i wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu

(1) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu.

(2) Trefniadau asesu yw trefniadau ar gyfer asesu, mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol—

- (a) y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a phlant,
- (b) y camau nesaf yn eu cynnydd, ac
- (c) yr addysgu a dysgu y mae ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill)—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol wneud a gweithredu trefniadau asesu;
- (b) pennu pa bryd a sut y mae'r trefniadau hynny i'w gwneud a'u gweithredu;
- (c) pennu'r trefniadau asesu, neu'r meini prawf y mae rhaid i'r trefniadau eu bodloni;
- (d) ei gwneud yn ofynnol gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau asesu;
- (e) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r gwerthusiad hwnnw i'w gynnal;
- (f) ei gwneud yn ofynnol cadw trefniadau asesu o dan adolygiad, a'u diwygio;
- (g) ei gwneud yn ofynnol i berson perthnasol ddarparu gwybodaeth, fel y'i pennir yn y rheoliadau, ynghylch trefniadau asesu a wneir neu a weithredir gan y person hwnnw, ac ynghylch y materion a ddisgrifir yn is-adran (2).

(4) Yn yr adran hon, ystyr "person perthnasol" yw—

- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;

(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
(d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
(e) pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
(f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

(5) Yn yr adran hon, ystyr "cwricwlwm perthnasol"—
(a) mewn perthynas ag ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, yw'r cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 11 gan bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol (ac os caiff y cwricwlwm hwnnw ei ddiwygio o dan adran 12, ei ystyr yw'r cwricwlwm hwnnw fel y'i diwygir);
(b) mewn perthynas ag addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yw'r cwricwlwm a fabwysiedir o dan adran 15 gan y person y darperir yr addysg ganddo (ac os caiff y cwricwlwm hwnnw ei ddiwygio o dan adran 16, ei ystyr yw'r cwricwlwm hwnnw fel y'i diwygir);
(c) mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yw'r cwricwlwm ar gyfer yr uned y cyfeirir ato yn adran 50 (ac os caiff y cwricwlwm hwnnw ei ddiwygio o dan adran 51, ei ystyr yw'r cwricwlwm hwnnw fel y'i diwygir);
(d) mewn perthynas ag addysg a ddarperir ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996, yw'r cwricwlwm i'r plentyn y cyfeirir ato yn adran 53.

(6) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon—
(a) pennu'r trefniadau asesu sydd i'w gwneud a'u gweithredu drwy gyfeirio at ddogfen a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan unrhyw berson;
(b) gwneud darpariaeth i drefniadau asesu gael eu gweithredu yn unol â dogfen a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan unrhyw berson.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)** |
| **I2** | A. 56 mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(c)** |
| **I3** | A. 56(1) mewn grym ar 11.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/12, **ergl. 2(a)** |
| **I4** | A. 56(1) mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(a)** |
| **I5** | A. 56(2)-(6) mewn grym ar 1.9.2022 gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(a)** |

## 57 Hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo person perthnasol (neu bersonau perthnasol o ddisgrifiad penodedig) i gymryd camau penodedig gyda golwg ar hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd yng nghyd-destun cwricwlwm perthnasol.

(2) Rhaid i berson perthnasol y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan yr adran hon gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(3) Yn yr adran hon—
(a) mae i "cwricwlwm perthnasol" a "person perthnasol" yr ystyr a roddir yn adran 56, a
(b) ystyr "penodedig" yw penodedig mewn cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I6** | A. 57 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)** |
| **I7** | A. 57 mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(c)** |
| **I8** | A. 57(1) mewn grym ar 11.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/12, **ergl. 2(b)** |
| **I9** | A. 57(1) mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(b)** |
| **I10** | A. 57(2)(3) mewn grym ar 1.9.2022 gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(b)** |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, RHAN 4.